# Y CABINET DYDD MAWRTH, 23 IONAWR 2024

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Beca Brown, Menna Trenholme, Berwyn Parry Jones, Craig ab Iago, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Elin Walker Jones a Ioan Thomas.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Aeron Morgan (Pennaeth Cyllid) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6, 7, 8, 10: Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol)

Eitem 9: Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Adran Addysg), Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Cefnogaeth Gorfforaethol) a Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol: Uwchradd).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Diolchwyd i staff rheng flaen am eu gwaith yn ystod y tywydd garw.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 RHAGFYR 2023

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2023 fel rhai cywir.

## 6. CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2023

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

1) Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2023 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
2) Nodi bod rhagolygon gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC eleni.
3) Cymeradwyo trosglwyddiad o £4,241k o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adolygiad yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2023/24, a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Eglurwyd fod yr adolygiad yn awgrymu y bydd pob un o'r deg adran yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn. Ychwanegwyd y bydd gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd a'r Adran Briffyrdd, Peirianneg ac Ymgyhgoriaeth Gwynedd.

Nodwyd fod yr adran yn rhagweld y bydd bwlch ariannol o £8.1m ac mae hynny i'w gymharu â £9.1m a nodwyd yn yr adolygiad ym mis Awst. Eglurwyd fod y sefyllfa filiwn yn well ond fod hyn o ganlyniad i ddefnydd o gronfeydd un-tro er mwyn helpu'r sefyllfa o fewn adrannau.

Amlygwyd y prif faterion fel a ganlyn:
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - Nodwyd fod rhagolygon diweddaraf yn awgrymu £5.4m o orwariant, sydd yn gyfuniad o nifer o ffactorau megis nifer o achosion newydd a chostus, costau staffio uwch a lefelau salwch a chyfraddau oriau digyswllt yn uchel. Mynegwyd fod gwaith a gomisiynwyd gan y Prif Weithredwr bellach ar y gweill er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a chreu rhaglen glir i ymateb.

Adran Plant a Theuluoedd – eglurwyd fod sefyllfa ariannol wedi gwaethygu'n sylweddol ers adolygiad Awst, ac mae hyn o ganlyniad i gynnydd mewn costau pecynnau all-sirol. Nodwyd fod yr adran yn rhagweld gorwariant o £1.3m.

Adran Addysg – Nodwyd fod pwysau cynyddol ar y gyllideb cludiant gyda gorwariant o £1.15m yn cael ei ragweld. Eglurwyd fod adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd ac i geisio lleihau'r gorwariant.

Byw'n Iach - mynegwyd fod Cofid wedi cael effaith ar Gwmni'n Byw'n Iach a nodwyd fod y gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol wedi lleihau eleni i £350mil.

Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd – rhagwelir gorwariant o £780mil gan yr adran, nodwyd fod hyn o ganlyniad leihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu sydd wedi cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau priffyrdd. Nodwyd fod colledion incwm cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus hefyd yn ffactorau.

Adran Amgylchedd - nodwyd fod y tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau, eglurwyd fodd cylchdeithiau ychwanegol wedi arwain at orwariant costau cyflogaeth a chostau fflyd.

Adran Tai ac Eiddo – Eglurwyd fod tueddiad o bwysau sylweddol ar wasanaethau llety dros dro yn parhau i fod yn ddwys iawn, ac eleni dyrannwyd £3m o bremiwm treth Cyngor ynghyd a dyraniad un tro £1.2m o ddarpariaeth Covid corfforaethol i gyfarch y costau ychwanegol.

Corfforaethol -Nodwyd fod rhagdybiaeth ddarbodus wrth osod cyllideb 2023/24, lleihad mewn niferoedd sy'n hawlio gostyngiad treth cyngor wedi arwain at danwariant. Nodwyd fod effaith y polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu fod modd osgoi benthyca yn allanol. Eglurwyd fod tanwariant ar gyllidebau eraill yn cynorthwyo i leddfu'r pwysau ychwanegol y cynnydd cenedlaethol i gyflogau gweithwyr a gadarnhawyd ym mis Tachwedd.

Nodwyd fod y sefyllfa yn golygu y bydd angen gneued defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido'r bwlch ariannol o £8.1m. Mynegwyd ei bod yn gynamserol i drosglwyddo ariannol o'r cronfeydd nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol. Argymhellwyd mai'r drefn ar hyn o bryd fydd i ddefnyddio £3.8m o'r gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid, ac yna'r gweddill i'w gyllido o Gronfa Strategaeth ariannol y Cyngor.

Eglurwyd fod yr eitem wedi ei drafod yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r wythnos ddiwethaf a nodwyd fod y sylwadau canlynol wedi'i godi. Nodwyd gan nifer o aelodau fod cyfeiriadau cyson at gynnal adolygiadau o fewn adrannau. Amlygwyd pryder gan yr aelodau fod diffyg amserlen i adrodd yn ôl o'r adolygiadau ac felly fod risg o'r mater yn llithro. Mynegwyd awydd i'r Cabinet bwyso am amserlen ble mae'n briodol. Tynnwyd sylw at gwestiynau am grantiau, ac yn benodol os yw'r trefniadau grantiau cenedlaethol yn golygu fod y Cyngor yn dibynnu ar yr arian ac o ganlyniad yn gwario arian refeniw mewn meysydd nad ydynt o reidrwydd yn faes blaenoriaeth y Cyngor. Eglurwyd fod y trefniadau grant yn golygu fod yna fan reoli gan y Llywodraeth, ond fod cynlluniau ar y gweill i ddod a mwy o grantiau i mewn i'r setliad sydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i flaenoriaethu.

Holwyd am gynaladwyedd y sefyllfa, gan nodi na all y lefel yma o orwariant barhau. Pwysleisiwyd fod bidiau refeniw ar gyfer cyllideb 2024/25 yn mynd i'r afael a gorwariant, a'u bod yn cwbl hanfodol. Eglurwyd fod y bidiau wedi bod yn destun herio manwl er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin â gwir achosion o ddiffygion cyllideb ac nid methiant i reoli cyllideb.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Bu i'r Prif Weithredwr ychwanegu fod yr adroddiad yn cyfeirio at orwariant,

ond pwysleisiwyd fod y dystiolaeth yn amlygu mai'r gyllideb sydd yn rhy isel ac nid yw'r gwariant yn wariant ofer. Esboniwyd fod yr adolygiad ar orwariant yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi dod i gasgliad ac wedi adrodd cyn y Nadolig sydd wedi adnabod pump i chwe maes sy'n gorwario a fydd yn cael cymorth drwy'r drefn bidiau. Ychwanegwyd fod y Cyngor wedi gofyn am gymorth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol i edrych ar y gorwario yn y maes Gofal Cymdeithasol rhag ofn fod y Cyngor wedi methu rhywbeth. Nodwyd fod adolygiad ar y gweill ar gyfer edrych ar Gludiant Ysgolion ac y bydd camau yn ei lle ar gyfer blwyddyn ariannol nesaf. O ran yr adolygiad Gwastraff mynegwyd eu bod wedi adrodd ar y gwaith a bod y camau gweithredu wedi gweld y gorwariant yn haneru ar gyfer eleni, ac felly yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

- Ategwyd y bydd adroddiad ym mis Ebrill yn rhoi rhagolygon ar gyfer y tymor canolog, ac ar hyn o bryd eu bod yn rhagweld yn go ddu, ble y bydd yn debygol iawn y bydd angen gwaith manwl i weld beth sydd modd eu cyflawni o fewn y gyllideb honno. Pwysleisiwyd fod y dyfodol yn edrych yn llawer gwaeth 'na'r presennol a bod hyn yn neges genedlaethol.
- Eglurwyd fod y Cyngor wedi cyflawni bron i £40m o arbedion ers 2016, sydd yn bron i 10% o gyllideb y Cyngor.
- Amlygwyd fod yr adroddiad yn nodi fod y nifer o ail gartrefi sy'n destun premiwm wedi lleihau ers y llynedd ynghyd a gostyngiad o dai sy'n trosi i fod yn destun treth busnes. Holwyd os yw rhai yn batrymau sydd i'w gweld ac os bydd yn parhau i ddisgyn. Nodwyd fod gostyngiad yn raddol yn y tai sy'n destun premiwm a bod tueddiad wedi gwyrdroi o ran eiddo sy'n trosglwyddo i dreth busnes, gyda mwy o eiddo yn troi yn ôl i fod yn eiddo preswyl. Er hyn, nodwyd fod cynnydd wedi bod mewn nifer tai sy'n derbyn disgownt person sengl, ac yn destun adolygiad parhau.

## 7. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2023/24 a blynyddoedd blaenorol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn crynhoi sefyllfa arbedion y Cyngor. Nodwyd er mwyn cau bwlch ariannol eleni roedd angen gweithredu gwerth £7.6m o arbedion yn ystod 2023/24. Roedd yn gyfuniad o bron i filiwn oedd wedi ei gymeradwyo yn flaenorol, arbedion ar gyfer Ysgolion o £1.1m, £3m ar gyfer adrannau'r Cyngor a £2.4m pellach drwy adolygu polisi ad-dalu dyled cyfalaf y Cyngor.

Amlygwyd dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd trafferthion i wireddu arbedion mewn rhai meysydd hyn amlycaf yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac yn y

maes Gwastraff. Mynegwyd y bu i werth £2m o gynlluniau oedd a risgiau sylweddol i gyflawni eu dileu fel rhan o Adolygiad Diwedd Awst.

Eglurwyd fod 98% o'r Cynlluniau o 2015/16 hyd at y flwyddyn ariannol 2023/24 bellach wedi ei gwireddu sef £33.7m o'r £34.3m. O'r cynlluniau newydd yn y flwyddyn ariannol gyfredol nodwyd fod 81% wedi ei gwireddu a 6% pellach ar drac i'w gyflawni'n amserol. Eglurwyd fod ychydig o oediad i wireddu gwerth £694k o gynlluniau arbedion, ond nid yw'r Adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu. Pwysleisiwyd fod mwyafrif o'r swm yma yn cynnwys arbedion o £539k gan ysgolion gan eu bod yn gweithio i flwyddyn academaidd ac felly y bydd gwireddu'n llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Pwysleisiwyd fod £39m o arbedion wedi eu gwireddu o'r £41m gofynnol dros y cyfnod. Rhagwelir y bydd 1% ychwanegol wedi ei wireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Bu i'r Pennaeth Cyllid amlygu'r sylwadau a'r pwyntiau a godwyd yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel a ganlyn. Holwyd sut mae dewis rhwng priodoldeb ariannol a chyflawni dyletswydd statudol, a beth fuasai angen ei wneud unwaith fo arian yn dod i ben. Esboniwyd ei bod yn allweddol fod y cyngor yn gwneud popeth i sicrhau na fydd yn cyrraedd y pwynt yma. Nodwyd fod angen gwneud yn siŵr fod y Cyngor yn sicrhau gwerth am arian ac yn gwneud y defnydd gorau o bob punt. Mynegwyd fod methiant i wneud hyn yn arwain at angen i wneud datganiad s114, a bod angen gwneud popeth i osgoi cyrraedd y pwynt yma. Cydnabuwyd fod pryder am ddiffyg adnoddau i gyflawni'r pethau ond mai hyn yw'r realiti ar hyn o bryd.

Nodwyd fod cais i wneud gwaith modelu er mwyn rhagweld y galw yn y dyfodol, ac eglurwyd fod y Tîm Ymchwil a Gwybodaeth yn flaengar iawn yn y maes hwn. Amlygwyd fod yr aelodau yn nodi ei bod yn prysur gyrraedd y pwynt ble mae angen ail-edrych ar y ffordd mae'r Cyngor yn cyflawni gwasanaethau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd yng nghanol y naratif o doriadau a phwysau cynyddol ar staff, tynnwyd sylw at yr angen i feddwl ar yr effaith mae'n cael ar y staff. Mynegwyd mai prif faes gwariant y Cyngor yw cyflogi staff ac mae torri yn ôl yn mynd i arwain at fwy o bwysau ar staff. Pwysleisiwyd fod rhaglen llesiant staff wedi ei roi ar dop yr agenda.
- Heriwyd beth oedd "statudol" ac eglurwyd eu bod yn feysydd ble mae gofyn statudol i'r Cyngor eu gweithredu, megis cynllunio a diogelwch plant. Eglurwyd gyda'r sefyllfa ariannol fel ac y mae hi mae'n her i benderfynu ble mae'r ffiniau o ran gwneud y dyletswyddau statudol ac i dorri unrhyw beth sydd uwchlaw hyn.

## 8. RHAGLEN GYFALAF 2023/34 - ADOYLGIAD DIWEDD TACHWEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNIAD**

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2023) o'r rhaglen gyfalaf.
- Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad, sef: - cynnydd o £3,576,000 mewn defnydd o fenthyca - cynnydd o £2,373,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau - cynnydd o £317,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw - cynnydd o £1,038,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mae prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwy'r ffynonellau ariannu perthnasol. Eglurwyd mai'r prif gasgliadau yw bod y Cyngor a chynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £86.8m yn 2023/24 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £41.5m wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.

Mynegwyd fod effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf, gyda £23.2m sef 27% o'r gyllideb wedi ei wario hyd at ddiwedd Tachwedd eleni, o'i gymharu â 40% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl. Nodwyd fod £27.4m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail broffilio o 2023/24 i 2024/25 a 2025/26. Tynnwyd sylw i rai o'r cynlluniau a oedd yn cynnwys £12.2m Cynlluniau Ysgolion, £11m Cynlluniau Strategaeth Tai, £3.9m Cynlluniau Risgiau Arfordirol ac Atal Llifogydd.

Amlygwyd fod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn denu grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf a oedd yn cynnwys £661k Grant Cyfalaf Economi Gylchol, £550k Grantiau at Gae Synthetig Cymunedol 3G ar safle Ysgol Syr Hugh Owen.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd gan fod gymaint o boeni am y cynlluniau refeniw mae'r rhaglen gyfalaf yn aml yn cael ei anghofio. Eglurwyd y bydd cynllun asedau deg mlynedd y Cyngor am gael ei osod dros y misoedd nesaf, ac amlygwyd fod gofynion pob gwasanaeth yn dod i gyfanswm o £82m gyda'r arian cyfalaf yn £38m ac felly bydd angen torri yn ôl ar wariant.
- Nodwyd fod cyfran gwario eleni yn 27% sydd yn is na'r llynedd a gofynnwyd beth oedd rheswm dros hyn. Eglurwyd fod hyn o ganlyniad i broffilio gwael a rhai cynlluniau addysg heb symud ymlaen.

## 9. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown

**PENDERFYNIAD**

**Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan longyfarch Gwern ap Rhisiart ar ei rôl newydd fel Pennaeth yr Adran Addysg. Atgoffwyd fod y gyfundrefn wedi derbyn adroddiad Estyn cadarnhaol a gyhoeddwyd fis Medi'r llynedd a oedd yn tystio i waith caled y gyfundrefn a diolchwyd i bawb am eu gwaith.

Amlygwyd fod yr adran wedi bod yn gweithredu ar gynlluniau o fewn Cynllun y Cyngor y newydd ond ei bod yn ddyddiau cynnal gan ei bod yn gynllun newydd. Amlygwyd rhai meysydd fel a ganlyn. O ran cynllun Trawsnewid Addysg Blynyddoedd Cynnar nodwyd fod comisiynydd allanol wedi'i gomisiynu a bod cynllun gwaith drafft wedi ei greu. Mynegwyd y bydd hyn yn lleihau anghysondeb o ran cynnig ar draws y sir. Eglurwyd fod y Cyngor o flaen amserlen y Llywodraeth o ran cinio am ddim, a bod y gwaith uwchraddio wedi ei wneud bellach o fewn ysgolion. Ychwanegwyd fod gwaith hyrwyddo angen ei wneud yn benodol mewn rhai ysgolion ble mae cyfradd nifer y plant yn elwa yn is.

Mynegwyd yn y maes moderneiddio addysg balchder fod modd arallgyfeirio arian er mwyn buddsoddi yn Ysgol Hirael a Ysgol Tryfan ym Mangor, gan fod costau adeiladu wedi cynyddu cymaint. Ategwyd o ran Llesiant Plant a Pobl ifanc a Cost Gyrru Plant i'r Ysgol fod holiadur wedi ei rannu a fydd yn adnabod gwir gost anfon plant i'r ysgol a fydd yn amlygu costau amlwg meis gwisg ysgol ynghyd a chodi sylwi i gostau mwy cuddiedig.

O ran cynllun Trochi, diolchwyd i staff am eu gwaith ac i'r plant am eu holl ymdrechion a bod gwir angen dathlu'r nifer o siaradwyr Cymraeg newydd mae'r gwasanaeth yn ei greu. Mynegwyd fod gwaith hyfforddiant yn parhau o fewn ysgolion a bod rhai ysgolion uwchradd mewn peilot Llywodraeth Cymru a Say Something in Welsh a bod hyn yn amlygu fod yr adran yn ceisio am bob cyfle sy'n codi i sicrhau defnydd o'r Gymraeg.

O ddydd i ddydd amlygwyd fod lefel presenoldeb yn parhau i fod yn broblem, ond ei fod i'w weld yn lleol, cenedlaethol ac yn rhyngwladol yn dilyn Covid. Nodwyd fod y rhesymau yn gymhleth ond fod llawer o waith yn cael ei wneud. Mynegwyd tristwch fod y Cabinet wedi gwneud y penderfyniad i gau Ysgol Felinwda ond diolchwyd i'r staff am eu holl waith a dymuno yn dda i'r plant wrth drosglwyddo i'r ddwy ysgol gyfagos.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Ychwanegodd y Pennaeth Addysg fod yr adroddiad yn amlygu llawer o newyddion da ond fod yr adran yn wynebu heriau ond ei fod yn edrych ymlaen at symud ymlaen i weithio yn agos nid yn unig gyda staff yr adran ond gydag ysgolion yn ogystal.
- Amlygwyd fod gwaith Athro ddim yn swydd hawdd a diolchwyd yn fawr i holl athrawon a staff ysgolion am eu gwaith ac am eu cyfraniad yn trosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf.
- Holwyd am sut mae'r gyfundrefn drochi yn cael gwerthuso. Y bwriad yw cynnal grŵp defnyddwyr i weld beth sy'n gweithio er mwyn gallu gwella'r ddarpariaeth.

## 10. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GYLLID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod perfformiad yr adran yn gyffredinol dda dros y misoedd diwethaf, ac wedi gwneud cynnydd boddhaol ar y prosiectau blaenoriaeth perthnasol. Amlygwyd prif faterion sy'n deillio o berfformiad yr adran gan gynnwys yr eitemau isod.

O ran Gwasanaeth TG - Cefnogol nodwyd fod y gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus wrth lenwi swyddi gwag allweddol. Amlygwyd fod dros 3,453 o geisiadau am gymorth TG yn ystod Hydref a Thachwedd 2023, gyda 93% wedi eu hagor a'u cau yn ystod y cyfnod. Wrth edrych ar Wasanaeth TG - Isadeiledd nodwyd fod argaeledd y Rhwydwaith Craidd a'r Systemau Critigol wedi bod yn 100% yn ystod y cyfnod a ni chafwyd digwyddiad seibir na thoriad gwasanaeth difrifol chwaith.

Wrth edrych ar wasanaethau cyllid amlygwyd y prosiectau fel a ganlyn. O ran Gwasanaeth Incwm nodwyd fod yr adroddiad yn parhau i roi sylw i gynnydd yr achosion mae'r gwasanaeth yn eu cyfeirio at y Gwasanaeth Cyfreithiol er mwyn sicrhau bod cydweithio effeithiol rhwng y ddwy uned. Amlygwyd fod Gwasanaeth Budd-daliadau yn perfformio'n gyson dda a diolchwyd i'r Rheolwr a'r holl staff y gwasanaeth am sicrhau fod pobl fwyaf bregus Gwynedd yn derbyn y cymorth ariannol maent yn gymwys iddo. Mynegwyd fod y gwasanaeth Cyflogau wedi bod yn ymateb yn amserol i'r cytundeb tal ar gyfer 2023/24 ac wedi sicrhau fod cynnydd ac ôl-dâl wedi cael ei dalu i staff yn ystod mis Tachwedd. Amlygwyd pryder ar fethiant rhai gwasanaethau i hysbysu'r Gwasanaeth Cyflogau'n amserol o unrhyw newid mewn sefyllfa unigolyn er mwyn gallu gweithredu ar amser.

Mae llawer o waith wedi ei wneud i gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd ar y gwasanaeth Trethi, ac mae gwelliannau clir bellach wedi dod i'r amlwg yn sgil ymrwymiad y Rheolwr a'r tîm cyfan i wneud y gwaith. Tynnwyd sylw at y cynlluniau arbedion gan nodi fod pob cynllun oni bai am un wedi ei gyflawni ar gyfer cynlluniau 2015/16 – 2022/23. Nodwyd nad yw'r adran yn rhagweld y bydd y cynllun – Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol yn gwireddu'r targed arbedion o £35k felly mae'r adran yn edrych am gynllun amgen. Nodwyd fod cyfanswm arbedion 2023/24 ar gyfer yr Adran Gyllid yw £294,060 dros 7 cynllun. Eglurwyd fod gwerth £19,820 o gynlluniau eisoes wedi gwireddu ac mae 3 cynllun arall a cyfanswm o £138,670 ar drac i gyflawni'n amserlen. Amlygwyd fod 2 gynllun gwerth £135,570 yn llithro.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at y Gwasanaeth Budd-daliadau gan nodi fod yr adran yn gyson dda ond fod angen annog pobl Gwynedd i ddefnyddio'r gwasanaeth

i sicrhau eu bod yn cael y cymorth ariannol sydd ar gael iddynt.

## 11. BLAEN RAGLEN Y CABINET

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

**Cymeradwywyd y Flaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.**

**TRAFODAETH**

Dim i'w nodi.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00 a daeth i ben am 14:40

**CADEIRYDD**